

LLYWARCH ap LLYWELYN ('Prydydd y Moch '; fl. 1173-1220);

Enw: Llywarch ap Llywelyn
Ffugenw: Prydydd Y Moch
Plentyn: Dafydd Benfras
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David Myrddin Lloyd

yr amlycaf o feirdd llys Gwynedd wedi marw [Owain Gwynedd](#) hyd at anterth [Llywelyn Fawr](#). Y mae'n cyfarch [Dafydd](#) fab [Owain Gwynedd](#) fel ' Udd Ffraw '; felly canai iddo rhwng 1173 a 1175. Cynnen rhwng brodyr o dywysogion oedd prif berygl yr oes yng Nghymru, a hawdd deall y cyfeiriad at Gain ac Abel mewn awdl i [Rodri](#). Dyrchafu awdurdod Aberffraw oedd y llwybr ymwared a welai Llywarch. Yr oedd [Dafydd](#) fel ' Udd Ffraw ' yn ' brif deyrn canhwynawl,' ond yr oedd rhaid iddo, medd y bardd, fynnu ei flaenoriaeth trwy rym - nid trwy gariad. Ar ôl [Dafydd](#), bu [Rhodri](#), ac yna Gruffudd ei nai yn rheoli Aberffraw, ond er gwanned oeddynt, daliai Llywarch i bleidio ' hawl greddfawl ' y llys hwnnw dros y Brython 'o Fôn i Fynyw.' Gellir deall felly ei orfoledd yng nghynnydd [Llywelyn Fawr](#). Ceir naw o gerddi a ganodd iddo fel ei brifardd ar wahanol adegau ar ei yrfa. Adeg bygwth Powys gan [Llywelyn](#) yw achlysur y ' Canu Mawr,' ac apelia'r bardd at w r y dalaith honno ar dir cenedlaethol, sef mai gwell derbyn Cymro yn ben nag estron. A sonia droeon am ei arwr fel yr [Madog fab Maredudd](#) yn ogystal ag [Owain Gwynedd](#). Yn y ' Canu Bychan ' gwêl Llywarch sylweddoli ei holl freuddwydion; olrheinia yrfa [Llywelyn](#) trwy Ogledd a De hyd at fuddugoliaethau 1220, a blaenoriaeth Aberffraw bellach yw balchder Cymru, ei hundod, a'i llwyddiant. Canodd Llywarch hefyd i amryw dywysogion a oedd yn is-wasanaethgar i [Llywelyn](#) yng Ngwynedd a Phowys, a'r un modd i [Rys Grug](#) yn y De. Y mae'r cyfeiriadau at gastell Gwis, Arberth, a Hawrffordd yn awgrymu 1220 yn hytrach na 1215. Fel ffrwyth undod newydd Cymru ceir gan y bardd hwn ymorfoleddu yn enwau lleoedd Cymru gyfan na cheir ei debyg gan unrhyw fardd o'i flaen. Canodd rieingerdd i Wenllian Deg. Yn ' Awdl yr Haearn Twymyn ' y mae'n gwadu'r cyhuddiad iddo ladd ryw Fadawg. Ansicr yw ei awduriaeth o'r ' Canu i Dduw ' a briodolir iddo yn Hendregadredd MS. ond i [Gynddelw](#) yn [The Myvyrian Archaiology of Wales](#) a Llyfr Coch Hergest; y mae'r condemnio trachwant tywysogion yn gweddu'n well i [Gynddelw](#). Anodd esbonio'r llysenw ar Lywarch, onid yw'r cyfeiriad at foch yn [The Myvyrian Archaiology of Wales](#) 204 a 26 yn rhyw eglurhad. Y mae achos i gredu iddo genfigennu wrth [Wilym Ryfel](#) am ei lwyddiant yn llys [Dafydd ab Owain Gwynedd](#) ([The Myvyrian Archaiology of Wales](#) , 201 a 58). Ei olynydd yn llys [Llywelyn](#) oedd [Dafydd Benfras](#), a hwyrach mai ei fab oedd, ac os felly, ei unig fab ([The Myvyrian Archaiology of Wales](#) , 255 b 5).

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

Ei farddoniaeth yn

[The Myvyrian Archaiology of Wales \(1801-1807\)](#), i, 279-307

Llawysgrif Hendregadredd (1933), 1933

a Llyfr Coch Hergest

Gweler hefyd Henry Lewis (gol.), *Hen Gerddi Crefyddol* (Caerdydd 1931)

J. Lloyd-Jones, *The Court Poets of the Welsh Princes*

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Llywarch ap Llywelyn](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [305153415](#)

Wikidata: [Q3324117](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

